



**124 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**125 CAIS RHIF: 20/0986**

**Adeiladu a defnyddio stac gyda phibellau cysylltiedig a gantri systemau monitro allyriadau parhaus sydd â mynediad ysgol, Fifth Avenue, Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Karl Craddick (Asiant)
- Ms Vikki Howells AS (Gwrthwynebydd)
- Ms Beth Winter AS (Gwrthwynebydd)
- Mrs Mara Wakefield (Gwrthwynebydd)
- Mrs Tracy Sweetland-Hodges (Gwrthwynebydd)
- Mrs Clare Rees (Gwrthwynebydd)
- Mrs Barbara Melksham (Gwrthwynebydd)
- Mrs Diane Pope (Gwrthwynebydd)
- Mrs Cari Rees (Gwrthwynebydd)
- Mr Richard Jones (Gwrthwynebydd)

Darllenodd y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol gynnwys tri datganiad ysgrifenedig gan yr unigolion canlynol:

- Dr Kevin Thomas (Gwrthwynebydd)
- Mr David Pritchard (Gwrthwynebydd)
- Mr Roy Noble (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr David Williams, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Thomas a K Morgan, nad ydyn nhw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi'u pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Rhannodd y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau am nifer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd hyd yma o'i gymharu â'r nifer a gafodd eu cyflwyno yn rhan o'r adroddiad gwreiddiol.

Rhoddodd wybod i'r Aelodau nad oedd unrhyw oblygiadau pellach i'w hystyried mewn perthynas â Fframwaith Cymru'r Dyfodol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru 11.

Aeth y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol ymlaen i ddangos lluniau drôn o'r safle i'r Aelodau ac yna rhoi cyflwyniad i'r Aelodau ynglŷn â'r cais.

Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynodd Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn oherwydd bod yr Aelodau o'r farn y byddai'r cais yn cynrychioli datblygiad anghydnaws ac anaddas a fyddai'n cael effaith weledol anffafriol, niweidiol ac annerbyniol ar y dirwedd ac yn effeithio ar amwynder gweledol yr ardal. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**(Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams am gofnodi ei bod hi wedi pleidleisio o blaid y cynnig i wrthod y cais uchod).

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**